




PROMS LLEISIOI 2025



SGORIO GÔL



Mae 'na gyffro ar y teras, mae 'na floeddio yn y dorf.

Mae y gêm bêl droed ymlaen.

Mae na gicio ac anelu, mae 'na saethu am y gôl, mae y gêm bêl droed ymlaen.

‘Da ni di sgorio gôl, ‘da ni di ennill y gêm, ni ‘di'r gorau yn y byd (x2)

Mae ‘na reffari a chwiban, mae ‘na benalti a chosb,
mae y gêm bêl droed ymlaen.

Mae ‘na daro'r post a methu, mae ‘na sgorio ambell gôl, mae y gêm bêl droed ymlaen.

‘Da ni di sgorio gôl, ‘da ni ‘di ennill y gêm, ni ‘di'r gorau yn y byd (x2)

Ffa la la

Nawr ffarwel i dir na nog a Nia ar y traeth. Gwelaf risial ddagrau ar ei grudd.

Teimlaf bridd Iwerddon yn fy ngalw i yn ôl, a'r hiraeth am yr holl lawenydd fu.

Ffa la la la la la la la, can yr adar man: y swm yn siffrwd draw o'r ynys fad.

Ffa la la la la la la ymunaf yn y gan. Rwy'n myned adref nol i'm hannwyl wlad.

Meddyliaf am gyfeillion mwyn, a'r gainc a'r delyn aur. Mawl y beirdd a'r wledd a gynt a fu (www)

Chwedlau'r arwyr, swm y gan yn atsian drwy y tŷ, a'r merched glan yn dawnsio yno'n ffry.(nol i ffa la la)

Cur fy mron yn boenus wrth i'r gorwel agosau. Gwel fy llygaid rin fy nghartre clyd.

Grud y brynie'n las uwchben, gwylanod ar y traeth, sy'n galw ar eu brenin nol i'r byd.

Ffosfelen

Arglwydd, wele ni yn dod ger dy fron i ganu clod.

Cawsom wedi cysgu'n iawn eistedd oll wrth fyrddau llawn.

Gwna ni'n dryw i'n gwlad a'n hiaith yn ein chwarae, yn ein gwaith.

Maddau inni'n beiau lu er mwyn haeddiant Iesu cu

Diolch am y dorf ddi-ri sydd yn rhannu d'olud di.

Ac yn cofio anfon rhan i'r anghennus ym mhob man.

Diolch am yr haul a'i wres, ac am dan, a'r gaea'n nes,

Am rieni, a phawb sydd yn ein helpu ni bob dydd.



Mae ddoe wedi mynd

Haul a chysgod ddoe a luniodd ein heddiw ni,

Poen a llawenydd, gorthrwm, rhyfel a newyn:

Fedrwn ni mo'i newid, dyna oedd y drefn:

Ni yw ffrwyth y gwanwyn pell,

Ni yw'r gobaith am ddyfodol gwell.

Mae ddoe wedi mynd, mae heddiw'n eiddo i ni,

'Dyw 'fory heb ei gyffwrdd, mae'r dyfodol yn ein dwylo ni.

Haul a chysgod ddoe sy'n sail i'n heddiw ni:

Atsain o'r gorffennol, dyna sy'n ein tywys ni,

Adlais, hud a lledrith,

Stori, cainc a chân;

Ni sy'n gwarchod 'rhyn a fu,

Ni yw dyfodol Cymru Fydd.

Mae ddoe wedi mynd, mae heddiw'n eiddo i ni,

'Dyw 'fory heb ei gyffwrdd, mae'r dyfodol yn ein dwylo ni.

Hafan Gobaith

Pan fyddo'r ystorom yn bygwth gwae uwch dy ben,

A therfysg diwedd dydd, sydd yn rhwygo erwau'r nen.

Pan fyddo'r cysgodion yn taenu ias dros y tir,

A mantell ofnau'r nos, sydd yn gaddug blin o gur.

Yma, fe gei ysbaid, Noddfa i'th enaid,

Cei yma orffwys yn Hafan Gobaith hyd y wawr.

Pan fyddo dy lwybr mor faith a thithau'n llesgàu,

A chopar bryn ymhell, gorwel nad yw'n agosau.

Pan fyddo dy ysbryd ar fi'n diffygio'n llwyr,

A baich unigedd byd sydd yn drech ym min yr hwyr.

I'r sawl sy'n myned drwy ei ddôr,
Cynhaliaeth gref a ddaw,
Ffydd, gobaith a chariad Iôr yw'r heulwen wedi'r glaw.

Yma, cei ysbaid,
Noddfa i'th enaid,
Cei yma orffwys yn Hafan Gobaith hyd y wawr.

Diolch am gerddoriaeth

Diolch am gerddoriaeth, alaw dda a harmoniau
Curiad da i ddawnsio – bywyd sydd yn gan.

Diolch am gerddoriaeth, llawn o hwyl a chyfle i ni
Symud gyda'r rhythm, wrth i'n canu'r gan

Canu gyda'n gilydd, dathlu wnawn.

Mae cerddoriaeth yn ein gwneud yn llon! (x2)

Rhoddodd Duw ganeuon – melodi a lliw a rhythm -
I bob un o'r gwledydd drwy y byd i gyd.

Rhoddod Duw i Gymru lawer rheswm da i ddathlu
A mwynhau ein bywyd – dewch i ganu'n llon!

